# Cynllunwyr Iaith Cymru

y fforwm proffesiynol
ar gyfer cynllunwyr iaith yng Nghymru.

**Cyfarfod 19 Mehefin 2008**
**Canolfan Y Morlan, Aberystwyth**

## Nodiadau cryno

Cynhaliwyd cyfarfod arall o Gynllunwyr Iaith Cymru ar y 19eg o Fehefin. Dyma flas o'r hyn a drafodwyd.

## Adroddiad ar waith y gweithgor cymhwyster proffesiynol

Cyflwynwyd adroddiad ar waith y gweithgor gan Gareth Ioan. Sefydlwyd y gweithgor er mwyn symud ymlaen gyda datblygu'r cymhwyster proffesiynol gan lunio rhaglen weithredu i'w gyflwyno i'r fforwm llawn.

Dyma'r tasgau a adnabuwyd ar gyfer y rhaglen weithredu:

- Maintioli'r sector
- Asesu a mapio'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd
- Asesu anghenion y gweithlu

**Maintioli'r gweithlu**
Gan ddefnyddio rhestr o swyddi allweddol fel sail ar gyfer maintioli'r maes, amcangyfrifwyd bod rhwng tua 600 a 750 yn gweithio yn y maes cynllunio iaith yng Nghymru. Serch hynny, gall y nifer fod hyd at 1,000.

**Mapio'r ddarpariaeth**
Mae'r cyrsiau addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd yn cynnwys y pynciau canlynol:

- Ymwybyddiaeth iaith
- Cynllunio iaith corfforaethol
- Rhoi dwyieithrwydd ar waith
- Cynllunio iaith – theori ac arfer
- Hanes y Gymraeg a Sosio-ieithyddiaeth
- Cyfathrebu yn y Gymraeg
- Cyrsiau Cyffredinol

Casglwyd bod cyfleoedd, yn ogystal â hyfforddwyr neu ddarlithwyr profiadol, yn brin a phynciau yn gyfyng.

**Asesu anghenion y gweithlu**
Adnabuwyd cwestiynau allweddol ar gyfer holi'r gweithlu ynglŷn â'u cefndir proffesiynol, cymwysterau, dyheadau ac anghenion, ac ynglŷn ag adnabod rhwystrau.

**Y Cam nesaf - adnabod noddwr!**
Adnabuwyd nifer o ffynonellau Ewropeaidd posib i'w harchwilio ymhellach.

## Deddfwriaeth Iaith: y dyfodol

Holwyd Kathryn Jones gan Dylan Iorwerth ynglŷn â'r adroddiad 'Creu Cymru Gwbl Ddwyieithog: Cyfleoedd deddfu a gweithredu polisi'.

Yn ôl Kathryn mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth. Mae'n honni taw ansawdd y gwasanaeth sy'n bwysig felly dylai fod gan siaradwr Cymraeg mewn siop yng Ngwent neu Gaernarfon yr un hawl ieithyddol i dderbyn gwasanaeth o'r un ansawdd. Mae hyn yn mynd yn erbyn tueddiadau i ymateb i'r galw a ffocws y ddeddf bresennol ar ddyletswydd cyrff cyhoeddus yn hytrach na hawl yr unigolyn.

Soniodd Kathryn bod yr adroddiad yn cymharu deddfau cydraddoldebau eraill â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 sy'n wannach o lawer o ran rhoi statws cyfreithlon i hawl yr unigolyn.

Mae'r adroddiad hefyd yn trafod pwysigrwydd ystyried nifer o ddeddfwriaethau yn hytrach nag un ddeddf, ac ystyried y cyfleoedd sydd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i'w cynnig.

Trowyd y drafodaeth tuag at y Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol, neu'r LCOs, a chodwyd y pryder bod deddfau San Steffan ar hyn o bryd yn gwrthdaro â'r angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg. Mae gweision suful eisoes yn edrych trwy ddeddfau er mwyn gwneud adroddiad i'r Gweinidog priodol, felly mae'r broses yn ei le ond mae angen edrych am gyfleoedd i'r Gymraeg yn benodol. Byddai hyn yn cael effaith mawr er nad oes angen mesur na deddfwriaeth i'w sefydlu.

## Datblygu'r Wasg Gymraeg

Soniodd Dylan Iorwerth am y datblygiadau newydd sydd ar y gweill yn sgil derbyn arian gan Lywodraeth y Cynulliad i sefydlu gwefan a fydd yn darparu newyddion dyddiol trwy gyfrwng y Gymraeg.

Pwysleisiodd taw nid cymryd lle papur dyddiol yw'r bwriad. Yn hytrach, bydd y datblygiad ar y we yn cael ei ddefnyddio at ddibenion diwylliant, y gymdeithas ac yn fasnachol.

Cymharodd yr elfen fasnachol gyda sefydliad yn llogi stondin ar faes yr Eisteddfod. Byddant yn gallu gwneud rhywbeth tebyg ar y wefan i drosglwyddo neges yn y Gymraeg.

Mae'r datblygiad yn cynnig y cyfle delfrydol i Golwg i ddarparu newyddion a straeon lleol – rhywbeth sy'n anymarferol trwy brint.

Yn sgil y datblygiad bydd ychydig o newidiadau i gylchgrawn Golwg. Bydd y cylchgrawn yn edrych nôl dros yr wythnos ac yn cynnig mwy o drafodaeth, dadansoddiad ac adolygiadau.

## Sefydlu Cynllunwyr Iaith Cymru yn ffurfiol – y dewisiadau

Cafwyd cyflwyniad gan Rhys Dafis ar y ffordd ymlaen.

Dywedodd bod patrwm y cyfarfodydd sydd wedi cymryd lle yn arwain yn naturiol at yr angen i ffurfioli Cynllunwyr Iaith Cymru er mwyn ennill statws a'r ymdeimlad o berthyn a pherchnogaeth.

Yn ogystal, mae cyfansoddiad yn aml yn angenrheidiol ar gyfer ceisio am nawdd. Esboniodd bod nifer o hanfodion mewn cyfansoddiad ac aeth ati i'w trafod, e.e. nod ac amcanion; enw; pa fath o sefydliad?; corfforedig neu anghorfforedig?; aelodaeth; a'r drefn weithredol a goruchwyliol.

### Y Cam nesaf

- Bydd Rhys yn rhoi cyflwyniad pellach ar y cam nesaf ym Mhabell y Cymdeithasau ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol, 7 Awst am 5yh.
- Cytunwyd y byddai'r gweithgor yn ymhél â'r gwaith o lunio drafft cyfansoddiad, ac yn adrodd nôl ym mis Hydref. Byddant yn ceisio cyngor arbenigol hefyd.
- Posibilrwydd ar gyfer cyfarfod Hydref – cyflwyniad ar NPLD.

### Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf

Pryd? Dydd Iau, 7 Awst am 5yh
Ble? Pabell y Cymdeithasau, Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd a'r Cylch